

Rhif: WG31174



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol

Mai 2017

# Ymgynghoriad ar y fersiwn ddrafft o Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol

## Crynodeb o'r Ymatebion

### 1 Cyflwyniad

1.1 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar fersiwn ddrafft o Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol yn ystod y cyfnod rhwng 11 Gorffennaf a 3 Hydref 2016.

1.2 Mae'r system gynllunio yn chwarae rôl bwysig o ran gwarchod a chadw'r amgylchedd hanesyddol ac mae hefyd, ar yr un pryd, yn ei helpu i ddiwallu anghenion y presennol a pharhau i ymateb iddynt. Bydd TAN 24 yn rhoi cyngor cynllunio manwl ar amgylchedd hanesyddol Cymru.

1.3 Gofynnwyd saith cwestiwn. Roedd chwech o'r cwestiynau'n canolbwyntio ar briodoldeb y cyngor cynllunio a roddir ynglŷn â'r amgylchedd hanesyddol. Roedd y cwestiynau a ofynnwyd yn ystyried a yw'r ddogfen yn darparu gwybodaeth briodol am reoli newid i'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy a'r berthynas rhwng yr amgylchedd hanesyddol a gwarchod natur. Roeddent hefyd yn canolbwyntio ar wybodaeth newydd a gyflwynir ynglŷn â sut y dylid ystyried asedau hanesyddol penodol yn y broses gynllunio, sef Safleoedd Treftadaeth y Byd, gweddillion archaeolegol, parciau a gerddi hanesyddol, tirweddau hanesyddol ac asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig. Roedd y seithfed cwestiwn yn rhoi cyfle i'r ymatebwyr wneud sylwadau ychwanegol ynglŷn ag unrhyw beth nad oedd y cwestiynau blaenorol wedi ymdrin ag ef.

1.4 Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn amrywiol iawn. Roeddent yn fanwl ac yn tynnu sylw at lawer o faterion unigol a thematig. Oherwydd natur y sylwadau a dderbyniwyd, mae'n bosibl na fydd cyfeiriad penodol at bob un o'r sylwadau manwl a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn yr adroddiad cryno hwn. Er hyn, cafodd pob un o'r sylwadau a dderbyniwyd ei ystyried yn y broses o ddadansoddi'r ymatebion.

1.5 Mae'r adroddiad cryno hwn ar yr ymgynghoriad yn cynnwys crynodeb o'r holl ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y Nodyn Cyngor Technegol ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r materion a godwyd. Defnyddir canlyniadau'r dadansoddiad hwn fel sail i'r fersiwn derfynol o TAN 24 a gyhoeddir ar 8 Mai 2017.

### 2 Cefndir

2.1 Mae'r ffordd y mae amgylchedd hanesyddol Cymru'n cael ei reoli wedi newid llawer yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn gyffredinol, rhoddir mwy o bwyslais ar reoli newid i'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gadarnhaol yn hytrach nag osgoi niwed. Adlewyrchir hyn yn nogfen Egwyddorion Cadwraeth Cadw a gyhoeddwyd yn 2011. Mae'r ddogfen hon yn annog pwyslais cryf ar reoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy.

2.2 Cefnogir rhagor o newidiadau i'r ffordd y mae'r amgylchedd hanesyddol yn cael ei reoli yng Nghymru gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016. Mae'r Ddeddf yn rhan o gyfres o ddeddfwriaeth, cyngor polisi a chanllawiau sy'n gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau presennol ar gyfer gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru a'i reoli mewn ffordd gynaliadwy.

2.3 Er mwyn sicrhau bod y system sy'n ymwneud â rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys yr holl ddiweddariadau sydd wedi eu gwneud i bolisiau a deddfwriaeth, ymgynghorwyd ar bennod ddiwygiedig ar yr amgylchedd hanesyddol ym Mholisi Cynllunio Cymru rhwng 21 Mawrth a 12 Mehefin 2016. Cyhoeddwyd y bennod ddiwygiedig fel rhan o argraffiad newydd o Bolisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, ym mis Tachwedd 2016.

2.4 Rhyddhawyd fersiwn ddrafft o TAN 24 ar yr amgylchedd hanesyddol am y tro cyntaf yn 2015 er gwybodaeth ac fel sail i'r broses o graffu ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ar ei hynt drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ers hynny mae wedi cael ei ddiweddarau er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'n well y darpariaethau terfynol sydd yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) a'r nodau a'r amcanion sy'n ymwneud â sut y dylai'r system gynllunio reoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

2.5 Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn disodli'r cylchlythyrau ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol a luniwyd ym 1996 a 1998 ac yn ystyried canllawiau ymarfer da sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys y canllawiau a gyhoeddwyd gan Cadw yn *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*. Mae hefyd yn cynnwys datganiad cyfredol o ddiben sy'n sicrhau bod y system gynllunio'n adlewyrchu nodau ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol, gan roi pwyslais cryf ar reoli mewn ffordd gynaliadwy. Yn olaf, mae'n adlewyrchu'r ffordd y mae rheoli'r amgylchedd hanesyddol drwy'r system gynllunio yn cyfrannu tuag at saith nod llesiant Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru gynaliadwy fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### 3 Y prif gynigion

3.1 Bydd y cyngor manwl a roddir yn y Nodyn Cyngor Technegol ar warchod, rheoli a chadw'r amgylchedd hanesyddol yn sail i benderfyniadau rheoli datblygu sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio a fydd yn sensitif i arwyddocâd asedau hanesyddol. Bydd yn rhoi canllawiau er mwyn helpu i sicrhau bod unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn gymesur ag effaith cynigion ar yr amgylchedd hanesyddol.

3.2 Roedd y prif gynigion yn ymwneud â chanllawiau polisi cynllunio a gyflwynwyd yn y fersiwn ymgynghori drafft o'r TAN fel a ganlyn:

#### **Mae Adran 1 yn rhoi rhagor o fanylion am ddefnyddio Egwyddorion Cadwraeth Cadw a gwybodaeth am warchod natur a'r amgylchedd hanesyddol.**

- Mae Adran 1 yn rhoi canllawiau polisi cynllunio sy'n ymwneud â defnyddio *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli'r Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (Egwyddorion Cadwraeth). Mae Egwyddorion Cadwraeth yn darparu'r sail i Wasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) gyflawni ei ddyletswyddau ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol drafft yn egluro sut y dylid defnyddio'r Egwyddorion Cadwraeth i asesu effeithiau posibl cynigion datblygu ar asedau hanesyddol ac i helpu i wneud penderfyniadau pan fo'r broses gynllunio yn effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol. Mae hefyd yn pwysleisio'r angen i gael gafael ar dystiolaeth a'i defnyddio, gan gynnwys rôl cofnodion amgylchedd hanesyddol fel sail i benderfyniadau rheoli datblygu.
- Mae Adran 1 hefyd yn rhoi cyngor ynglŷn ag ystyried y berthynas rhwng gwarchod natur a'r amgylchedd hanesyddol yn ystod y broses gynllunio. Mae'n pwysleisio bod

angen rhoi sylw dyledus i warchod natur wrth asesu cynigion datblygu sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol.

### **Mae Adran 2 yn rhoi gwybodaeth yn ymwneud ag ystyried yr amgylchedd hanesyddol wrth baratoi cynlluniau datblygu lleol a chanllawiau cysylltiedig.**

- Mae Adran 2 yn rhoi cyngor yn ymwneud ag ystyried yr amgylchedd hanesyddol yn ystod proses y cynlluniau datblygu lleol (CDLI), gan gynnwys canllawiau ar baratoi polisiau amgylchedd hanesyddol sy'n unigryw i ardaloedd lleol ac ystyried yr amgylchedd hanesyddol wrth wneud Asesiadau Amgylcheddol Strategol ar gyfer cynlluniau datblygu lleol. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol drafft hefyd yn rhoi canllawiau ar ffurf enghreifftiau o ganllawiau cynllunio atodol sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol y gellid eu defnyddio i gynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol i gyflawni polisiau yn eu cynlluniau datblygu.

### **Mae Adran 3 yn rhoi cyngor ar sut i drin Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y broses gynllunio.**

- Mae Adran 3 yn rhoi cyngor newydd ynglŷn ag ystyried Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y broses gynllunio. Mae'n pwysleisio sut y dylai awdurdodau cynllunio lleol roi sylw i Safleoedd Treftadaeth y Byd a'u Gwerth Cyffredinol Eithriadol wrth ystyried cynigion datblygu a pharatoi polisiau.

### **Mae Adran 4 yn rhoi cyngor ar drin gweddillion archaeolegol.**

- Mae Adran 4 yn diweddarau canllawiau blaenorol ar bwysigrwydd gweddillion archaeolegol ac yn rhoi cyngor pellach ar gofnodi ac archifo gweddillion o'r fath lle bo'n briodol.

### **Mae Adrannau 5 a 6 yn rhoi gwybodaeth wedi'i diweddarau am adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth.**

- Mae Adrannau 5 a 6 yn diweddarau cyngor ar warchod adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth er mwyn diogelu a gwella eu nodweddion arbennig a sicrhau bod modd parhau i wneud defnydd cynaliadwy ohonynt. Maent hefyd yn rhoi gwybodaeth am y gofyniad newydd lle bydd datganiadau am yr effaith ar dreftadaeth yn disodli datganiadau dylunio a mynediad.

### **Mae Adrannau 7 ac 8 yn rhoi gwybodaeth wedi ei diweddarau a gwybodaeth newydd ynglŷn â sut i ystyried ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn y cofrestrï o barciau, gerddi a thirweddau hanesyddol ac asedau o ddiddordeb lleol arbennig yn y broses gynllunio.**

- Mae Adrannau 7 ac 8 yn adeiladu ar ofynion presennol y polisi cynllunio i ystyried y cofnodion yn y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol a'r gofrestr o dirweddau hanesyddol wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol drafft hefyd yn rhoi cyngor newydd i awdurdodau cynllunio lleol i'w galluogi i adnabod asedau o ddiddordeb lleol arbennig er mwyn iddynt allu cyfrannu'n llwyddiannus at y gwaith o gadw a gwella cymeriad lleol.

## **4 Ymgynghori a chyhoedduswydd**

4.1 Cyhoeddwyd fersiwn ddrafft o TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol gan Lywodraeth Cymru ar 11 Gorffennaf 2016 ar gyfer cyfnod ymgynghori cyhoeddus o 12 wythnos.

4.2 Roedd manylion yr ymgynghoriad i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru drwy gydol y cyfnod. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw rhestr o randdeiliaid sefydledig yn y system gynllunio a hysbyswyd pob un o'r rhain ynglŷn â'r ymgynghoriad drwy ebost uniongyrchol ar 11 Gorffennaf 2016. Mae'r rhanddeiliaid yn cynnwys Prif Weithredwyr a Phrif Swyddogion Cynllunio y 25 awdurdod cynllunio lleol, 23 o ymgynghoreion statudol a 101 o ymgynghoreion anstatudol.

4.3 Yn ychwanegol at hyn, bu swyddogion cynllunio yn gweithio gyda Cadw er mwyn cael rhestr o randdeiliaid allweddol sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn cynnwys cyrff ac unigolion sydd â diddordeb penodol mewn materion treftadaeth (er enghraifft ymddiriedolaethau archaeolegol) a hysbyswyd y rhain hefyd ynglŷn â'r ymgynghoriad ar 11 Gorffennaf. Cysylltodd Cadw ar wahân â thua 640 o randdeiliaid a oedd wedi dweud bod ganddynt diddordeb mewn derbyn gohebiaeth ynglŷn â Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) a hysbyswyd y rhain ynglŷn â'r ymgynghoriad drwy ebost uniongyrchol ar 11 Gorffennaf 2017.

## **5 Yr ymatebion**

5.1 Derbyniwyd cyfanswm o 73 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Y math mwyaf cyffredin o ymatebydd oedd awdurdodau cynllunio lleol, a oedd yn cynrychioli 26% o gyfanswm yr ymatebion a gyflwynwyd. Cafwyd ymateb i'r ymgynghoriad gan 19 o'r 25 awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru.

5.2 Cyrff proffesiynol â grwpiau buddiant oedd 19% o'r ymatebwyr. Roedd y rhain yn cynnwys sefydliadau fel Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr, Grŵp Treftadaeth Cymru, Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru.

5.3 Roedd y grŵp a oedd yn dosbarthu eu hunain fel 'eraill' yn cynrychioli 21% o'r ymatebwyr. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys unigolion a sefydliadau â budd personol neu broffesiynol yn y system gynllunio a'r amgylchedd hanesyddol.

5.4 Roedd asiantaethau'r llywodraeth a chyrff sector cyhoeddus eraill yn cynrychioli 12% o'r ymatebwyr a derbyniwyd sylwadau gan sefydliadau fel cynghorau tref a chymuned, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

5.5 Roedd busnes a'r sector gwirfoddol ill dau'n cynrychioli 11% o'r ymatebwyr ac roeddent yn cynnwys sefydliadau fel ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru, grwpiau ac enwadau crefyddol, Dŵr Cymru, y Grid Cenedlaethol a dwy gymdeithas ddinesig.

5.6 Mae dadansoddiad llawn o'r rhanddeiliaid a ymatebodd i'w weld yn yr Atodiad.

Tabl 1: Ymatebwyr i TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol yn ôl math

Math o ymatebwr	Nifer yr ymatebion	Canran
Awdurdodau Cynllunio Lleol	19	26%
Arall	15	21%
Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant	14	19%
Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall	9	12%
Sector Gwirfoddol	8	11%
Busnes/ Ymgynghorwr	8	11%
<b>Cyfanswm</b>	<b>73</b>	<b>100%</b>

## 6 Crynodeb o'r ymatebion fesul cwestiwn

6.1 Mae dadansoddiad cryno o'r prif ganfyddiadau ar gyfer pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad i'w weld isod, ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru.

6.2 Dylid nodi nad yw'r dadansoddiad cryno a roddir isod yn adlewyrchu'r holl ymatebwyr. Yn hytrach, mae'n seiliedig ar yr ymatebwyr a roddodd ateb uniongyrchol 'ie' neu 'na' i'r cwestiynau (fel sy'n cael ei amlinellu yn y tablau a roddwyd). Dewisodd llawer o'r ymatebwyr roi sylwadau yn hytrach nag ateb uniongyrchol. Lle bo modd, mae sylwadau a barn wedi cael eu hymgorffori yn y dadansoddiad os ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â phwnc y cwestiwn hyd yn oed os na chawsant eu cyflwyno'n benodol fel atebion i'r cwestiwn. Roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau'n gwahodd yr ymatebwyr i ymhelaethu ynglŷn â'u barn; o ganlyniad, mae'r dadansoddiad yn ansoddol i raddau helaeth.

## Cwestiwn 1:

A ydych yn cytuno bod y dull gweithredu a fabwysiadwyd yn sicrhau cydbwysedd rhwng rheoli newid a gwarchod yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru? Os nad ydych, awgrymwch sut y gellid gwneud hynny.

### Trosolwg Ystadegol

Ymatebwyr yn ôl math	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno
ACLlau	16	3	0
Busnesau	4	1	1
Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall	5	2	0
Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant	8	1	2
Sector Gwirfoddol	4	1	2
Arall	5	1	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>42</b>	<b>9</b>	<b>6</b>
<b>%</b>	<b>74%</b>	<b>16%</b>	<b>11%</b>

### Dadansoddiad Cryno

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a roddodd ateb uniongyrchol i'r cwestiwn yn cytuno (74%) bod y dull gweithredu a fabwysiadwyd yn y Nodyn Cyngor Technegol yn sicrhau cydbwysedd rhwng rheoli newid mewn ffordd gynaliadwy a gwarchod yr amgylchedd hanesyddol. Er hyn, roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno (16%) â'r dull gweithredu, ac yn credu nad oedd yn adlewyrchu egwyddorion cadwraeth mewn ffordd gymesur.

Roedd llawer o'r sefydliadau yn amau a fyddai gan awdurdodau cynllunio lleol ddigon o adnoddau ac arbenigedd, a chodwyd cwestiynau hefyd ynglŷn â'r goblygiadau o ran adnoddau i ymgeiswyr. Codwyd amheuan hefyd ynglŷn â chael gafael ar gofnodion amgylchedd hanesyddol a pha mor gyflawn oeddent. Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod angen egluro rolau'r Cofnod Henebion Cenedlaethol a'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol gan fod y naill a'r llall yn darparu ffynonellau gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol.

Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr a fyddai'n bosibl ehangu'r defnydd o asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth i gynnwys ceisiadau cynllunio sy'n effeithio, yn fwyaf arbennig, ar leoliadau asedau hanesyddol, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, Safleoedd Treftadaeth y Byd a'u clustogfeydd. Er hyn, cododd nifer o'r ymatebwyr gwestiynau ynglŷn â'r defnydd o asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth, yn enwedig gofyniad y datganiad o'r effaith ar dreftadaeth i gyfiawnhau'r gwaith arfaethedig nad oedd yn cael ei ystyried yn rhan o'i gwmpas. Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod angen rhagor o ganllawiau er mwyn sicrhau nad yw lefel y manylion sydd eu hangen i gefnogi cais am ganiatâd sy'n ymwneud ag adeilad rhestredig, ardal gadwraeth neu heneb gofrestrredig yn fwy na'r hyn sy'n ddigonol er mwyn deall effaith cynnig ar arwyddocâd ased hanesyddol.

Gofynnodd rhai am ragor o ganllawiau ynglŷn â nifer o faterion, gan gynnwys enghreifftiau da o ddatblygiadau sydd wedi sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng rheoli mewn ffordd gynaliadwy a gwarchod asedau hanesyddol.

Gofynnodd llawer o'r ymatebwyr am eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol a phrosesau cynllunio, gan gynnwys Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, ymgynghorwyr archaeolegol ac enwadau sydd ag Esemptiad Eglwysig.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod athroniaeth diogelu a'r amgylchedd hanesyddol yn newid. Mae adrannau o'r Nodyn Cyngor Technegol, yn enwedig y rhai hynny sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig a gweddillion archaeolegol, wedi cael eu newid yn unol â hynny er mwyn adlewyrchu'r angen am gymesuredd wrth asesu effaith datblygu ar yr amgylchedd hanesyddol.

Mae goblygiadau o ran adnoddau yn fater cyffredinol sy'n effeithio ar y gwasanaeth cynllunio yn ei gyfanrwydd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr anawsterau y mae awdurdodau cynllunio lleol ac eraill yn eu hwynebu wrth gyflawni eu swyddogaethau cynllunio. Er hyn, nid yw'n credu bod y cyngor a roddir yn y Nodyn Cyngor Technegol newydd hwn yn cyflwyno disgwyliadau afrealistig i'r rhai sy'n ymwneud â'r gwasanaeth cynllunio er mwyn sicrhau bod y system gynllunio'n rhoi ystyriaeth lawn i'r amgylchedd hanesyddol fel rhan o'i swyddogaethau. Ymhelaethir ynglŷn â'r defnydd o gofnodion amgylchedd hanesyddol a'u rôl yn y canllawiau statudol, *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio*. Amlinellir rôl y Cofnod Henebion Cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru ac mae'n nodi'n glir y gall gael ei ddefnyddio gan unigolion a chyrrff sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Nid oes angen ailadrodd hynny yma.

Cefnogir y defnydd o asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth gan reoliadau a chanllawiau yr ymgynghorwyd arnynt ar wahân. Mae'r diffiniad yn rhestr termau'r Nodyn Cyngor Technegol ar gyfer datganiad o'r effaith ar dreftadaeth a'r adran ar asesiadau o'r effaith a'r dreftadaeth wedi cael eu diwygio er mwyn adlewyrchu'n gliriach eu bod yn cael eu defnyddio i roi eglurhad o'r gwaith arfaethedig ac asesiad o'r effaith ar arwyddocâd yr ased hanesyddol. Mae canllawiau manylach ynglŷn â'r defnydd o asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth i'w gweld hefyd yn *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*.

Cyfrifoldeb yr awdurdod cynllunio lleol yw dangos ei fod wedi rhoi sylw dyledus i'r cydbwysedd rhwng rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy a diogelu'r amgylchedd hanesyddol fel rhan o'r broses o bwysu a mesur yr holl ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ynglŷn â cheisiadau cynllunio.

Mae geiriad yr adran am rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n ymwneud â'r prosesau cynllunio a chaniatâd treftadaeth wedi ei addasu i'w wneud yn gliriach.



## Cwestiwn 2:

A ydych yn cytuno bod y cyngor am y berthynas rhwng cadwraeth natur a'r amgylchedd hanesyddol yn glir? Os nad ydych, awgrymwch sut y gellid gwella'r cyngor hwnnw.

### Trosolwg Ystadegol

Ymatebwyr yn ôl math	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno
ACLlau	10	5	4
Busnesau	2	3	1
Asiantaethau'r Llywodraeth/ Sector Cyhoeddus Arall	4	2	1
Cyrff Proffesiynol/ Grwpiau Buddiant	6	3	2
Sector Gwirfoddol	2	2	3
Arall	4	2	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>28</b>	<b>17</b>	<b>13</b>
<b>%</b>	<b>48%</b>	<b>29%</b>	<b>22%</b>

### Datganiad Cryno

Roedd bron i hanner yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol yn cytuno (48%) bod y Nodyn Cyngor Technegol yn rhoi cyngor clir ynglŷn â'r berthynas rhwng gwarchod natur a'r amgylchedd hanesyddol. Roedd tri ar ddeg o'r ymatebwyr yn anghytuno (22%) ac roedd ychydig o'r ymatebwyr yn awgrymu bod gormod o bwyslais wedi cael ei roi ar faterion gwarchod natur yn y Nodyn Cyngor Technegol. Awgrymodd un person nad oes angen i'r Nodyn Cyngor Technegol gynnwys yr wybodaeth hon o gwbl gan nad yw gwybodaeth am yr amgylchedd naturiol yn un o ofynion y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol.

Dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod angen i'r Nodyn Cyngor Technegol ddangos yn gliriach sut y gellir sicrhau cydbwysedd rhwng yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd hanesyddol yn y broses gynllunio.

Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr am eglurder ynglŷn â nifer o faterion gweithdrefnol yn ymwneud â'r prosesau cynllunio a chaniatâd treftadaeth gan gynnwys rhoi trwyddedau, caniatadau a dilysu ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar warchod natur. Dywedasant hefyd y dylai'r holl ddynodiadau ecolegol, deddfwriaeth a dogfennau cyfarwyddyd perthnasol gael eu croesgyfeirio yn y ddogfen hon er mwyn sicrhau cysondeb.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae TAN 24 yn rhan o gyfres gynhwysfawr o Nodiadau Cyngor Technegol sy'n ategu Polisi Cynllunio Cymru drwy ddarparu'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer Cymru. Ni ddylai gael ei ddarllen ar ei ben ei hun. Nodir y polisi cynllunio cenedlaethol ar yr amgylchedd naturiol ym Mhennod 5 o Bolisi Cynllunio Cymru ac yn TAN 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn cynnwys cyfeiriadau at ffynonellau gwybodaeth perthnasol am yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys polisi cynllunio

cenedlaethol a deddfwriaeth, a ddylai gael eu darllen ochr yn ochr â'r Nodyn Cyngor Technegol.

Cyfrifoldeb yr awdurdod cynllunio lleol yw dangos ei fod wedi rhoi sylw dyledus i'r cydbwysedd rhwng yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd hanesyddol fel rhan o'r broses o bwysu a mesur yr holl ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ynglŷn â cheisiadau cynllunio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio'r adran ar warchod natur er mwyn ei gwneud yn fwy eglur ac mae wedi cynnwys cyfeiriadau at deddfwriaeth a pholisi perthnasol lle bo'n briodol.

### Cwestiwn 3:

A ydych yn cytuno bod y cyngor i awdurdodau cynllunio lleol ar ddatblygu polisïau a chanllawiau sy'n unigryw i'r ardal leol mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol yn glir? Os nad ydych, awgrymwch sut y gellid gwella'r cyngor hwnnw.

### Trosolwg Ystadegol

Ymatebwyr yn ôl math	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno
ACLiau	7	3	9
Busnesau	3	2	1
Asiantaethau'r Llywodraeth/ Sector Cyhoeddus Arall	4	3	0
Cyrff Proffesiynol/ Grwpiau Buddiant	6	1	4
Sector Gwirfoddol	2	3	2
Arall	3	2	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>25</b>	<b>14</b>	<b>18</b>
<b>%</b>	<b>44%</b>	<b>25%</b>	<b>32%</b>

### Dadansoddiad Cryno

Roedd llai na hanner yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol yn cytuno (44%) bod y cyngor ar ddatblygu polisïau a chanllawiau sy'n unigryw i'r ardal leol mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol yn glir. O'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol, roedd bron i draean o'r holl ymatebwyr (32%) yn anghytuno, ac yn teimlo nad oedd y cyngor yn glir.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn credu nad oedd y Nodyn Cyngor Technegol yn rhoi digon o wybodaeth ynglŷn â defnyddio polisïau sy'n unigryw i'r ardal leol ac yn gofyn am eglurder ynglŷn â sefyllfaoedd pan ddylai polisïau sy'n unigryw i ardaloedd lleol gael eu cynnwys mewn cynlluniau datblygu lleol (gan gynnwys enghreifftiau). Dywedodd rhai o'r ymatebwyr y byddent yn hoffi gweld y gwahaniaeth rhwng asedau hanesyddol lleol ac asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig yn cael ei egluro a gofynasant am fwy o eglurder ynglŷn â sut i adnabod gweddillion archaeolegol heb eu rhestru sy'n bwysig y tu hwnt i'r ardal leol.

Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am ragor o wybodaeth ynglŷn â llunio canllawiau cynllunio atodol, ac awgrymodd rhai o'r ymatebwyr fod angen rhoi mwy o bwyslais yn y Nodyn Cynllunio Technegol ar waith awdurdodau cynllunio lleol sy'n paratoi ac yn mabwysiadu'r dogfennau hyn.

Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr fod angen egluro neu ddiwygio'r paragraff ar ddangosyddion Aseidiadau Amgylcheddol Strategol gan y gallai'r enghreifftiau a roddwyd gael eu camddehongli fel enghreifftiau diffiniol neu amhriodol o'r hyn sy'n digwydd mewn perthynas â monitro cynlluniau datblygu lleol ac ystyriaethau yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol mewn awdurdodau lleol.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn amau a fyddai gan Cadw ddigon o adnoddau i reoli'r cofnodion amgylchedd hanesyddol sy'n hanfodol er mwyn darparu gwybodaeth i gynlluniau datblygu ac er mwyn helpu i benderfynu ynglŷn â cheisiadau cynllunio.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru yn wahanol drwy ei hawl ei hun ac ni fyddai darparu enghreifftiau penodol o bolisiau yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol sy'n unigryw i ardaloedd lleol yn berthnasol i bob ardal awdurdod cynllunio lleol. Byddai hyn yn achosi dryswch. Ni fwriadwyd i TAN 24 roi cyfarwyddiadau llym ynglŷn â pholisiau sy'n unigryw i ardaloedd lleol y dylai awdurdod cynllunio lleol eu mabwysiadu. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau cynllunio lleol benderfynu pa nodweddion sy'n bwysig ac yn arwyddocaol yn eu hardaloedd eu hunain drwy baratoi rhestrau lleol a thrwy gynnwys polisiau perthnasol yn eu cynlluniau datblygu lleol perthynol.

Nid ydym yn credu bod angen ymhelaethu ynglŷn â'r wybodaeth a roddwyd ar ganllawiau cynllunio atodol gan mai dim ond er mwyn rhoi arweiniad i awdurdodau cynllunio lleol ynglŷn ag enghreifftiau posibl o ganllawiau cynllunio atodol y gallent eu paratoi ar yr amgylchedd hanesyddol y bwriadwyd hwy. Cyfrifoldeb pob awdurdod cynllunio lleol yw penderfynu pa ganllawiau cynllunio atodol ar yr amgylchedd hanesyddol sy'n briodol i'w hardal leol hwy. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses gyffredinol o baratoi canllawiau cynllunio atodol ym Mholisi Cynllunio Cymru.

Ar ôl ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ynglŷn â chynnwys Dangosyddion Amgylcheddol Strategol yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol fel rhan o'r broses o baratoi cynlluniau datblygu lleol, credwn fod gormod o fanylion yn yr enghreifftiau y cyfeirir atynt. Mae Llywodraeth Cymru yn credu mai cyfrifoldeb yr awdurdod cynllunio lleol yw penderfynu ynglŷn â chwmpas a chynnwys y dangosyddion sydd i'w cynnwys yn yr Aseidiadau Amgylcheddol Strategol ar gyfer eu cynlluniau datblygu lleol ar sail eu hamgylchiadau lleol. O ganlyniad, mae'r testun wedi cael ei addasu i adlewyrchu'r safbwynt hwn.

Yn unol â Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i greu a diweddarau cofnod amgylchedd hanesyddol sy'n agored i'r cyhoedd ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Ni fydd unrhyw oblygiadau o ran adnoddau i Cadw, oherwydd yn ymarferol, drwy ddefnyddio cytundebau ffurfiol, mae Gweinidogion Cymru wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i gadw'r cofnod amgylchedd hanesyddol i'r pedair ymddiriedolaeth archaeolegol sydd yng Nghymru, ac wedi darparu cymorth ariannol ar gyfer y gwaith.

#### Cwestiwn 4:

A ydych yn cytuno bod y cyngor ar sut y dylid ystyried Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y broses gynllunio yn glir? Os nad ydych, awgrymwch sut y gellid gwella'r cyngor hwnnw.

#### Trosolwg Ystadegol

Ymatebwyr yn ôl math	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno
ACLLau	8	8	3
Busnesau	4	2	0
Asiantaethau'r Llywodraeth/ Sector Cyhoeddus Arall	5	3	0
Cyrff Proffesiynol/ Grwpiau Buddiant	10	0	1
Sector Gwirfoddol	3	4	0
Arall	3	4	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>33</b>	<b>21</b>	<b>4</b>
<b>%</b>	<b>57%</b>	<b>36%</b>	<b>7%</b>

#### Dadansoddiad Cryno

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol yn cytuno (57%) bod y cyngor ynglŷn â sut y dylid ystyried Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y broses gynllunio yn glir. Roedd ychydig o'r ymatebwyr (7%) yn anghytuno, ac yn credu nad yw'r cyngor yn glir.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn credu y dylai'r Nodyn Cyngor Technegol fod yn gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar reoli newid mewn Safleoedd Treftadaeth y Byd ac roeddent yn awgrymu y dylai rhoi rhagor o gyngor, gan gynnwys cyngor ynglŷn â'r diffiniad o leoliad a chlustogfa.

Gofynnodd ychydig o'r ymatebwyr am ganllawiau manylach ynglŷn â pholisïau lleol y gellid eu datblygu ar gyfer Safleoedd Treftadaeth y Byd a dywedasant y dylai'r canllawiau fod yn fwy penodol ynglŷn â datblygiadau a allai gael effaith niweidiol ar Werth Cyffredin Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd, a rhoi enghreifftiau. Gofynnwyd am ragor o ganllawiau hefyd ynglŷn â materion gweithdrefnol, gan gynnwys cyngor ar rôl Cynlluniau Rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd, a'r broses o'u hadolygu'n achlysurol, ac ym mha amgylchiadau y byddai angen galw ceisiadau a fyddai'n effeithio ar Safleoedd Treftadaeth y Byd i mewn. Gofynnodd un ymatebydd hefyd am ragor o wybodaeth ynglŷn ag ystyried asedau hanesyddol heb eu dynodi sydd o fewn Safle Treftadaeth y Byd a sut y dylid ymdrin â hwy yn y broses gynllunio.

#### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod TAN 24 a'r canllawiau cysylltiedig ar reoli newid mewn Safleoedd Treftadaeth y Byd yn anghyson mewn rhai rhannau. O ganlyniad, mae'r ddwy ddogfen wedi cael eu hadolygu ac mae unrhyw anghysonderau wedi cael eu cywiro. Mae'r diffiniadau o leoliad a chlustogfeydd yn y Nodyn Cyngor Technegol wedi cael eu gwneud yn gliriach.

Mae canllawiau manylach ar Safleoedd Treftadaeth y Byd, gan gynnwys datblygu polisiau lleol, ymgynghori ar geisiadau cynllunio a materion eraill yn ymwneud â rheoli datblygu a gweithdrefnau i'w gweld yn *Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru*. Darperir polisi cynllunio ar asedau hanesyddol heb eu dynodi sydd o bwysigrwydd lleol ym Mholisi Cynllunio Cymru, ac mae'n nodi bod angen rhoi ystyriaeth briodol i asedau o'r fath yn y broses gynllunio.

## Cwestiwn 5:

A ydych yn cytuno bod y cyngor ar sut y dylid ystyried gweddillion archaeolegol drwy'r broses gynllunio yn glir? Os nad ydych, awgrymwch sut y gellid gwella'r cyngor hwnnw.

### Trosolwg Ystadegol

Ymatebwyr yn ôl math	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno
ACLIau	9	8	2
Busnesau	3	2	1
Asiantaethau'r Llywodraeth/ Sector Cyhoeddus Arall	4	3	0
Cyrff Proffesiynol/ Grwpiau Buddiant	7	3	0
Sector Gwirfoddol	2	1	3
Arall	3	2	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>28</b>	<b>19</b>	<b>8</b>
<b>%</b>	<b>51%</b>	<b>35%</b>	<b>15%</b>

### Trosolwg Cryno

Roedd ychydig yn fwy na hanner yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol yn cytuno (51%) bod y cyngor yn y Nodyn Cyngor Technegol ynglŷn â sut y dylid ystyried gweddillion archaeolegol yn y broses gynllunio yn glir. Roedd rhai ymatebwyr (15%) yn anghytuno, ac yn credu nad oedd y cyngor yn glir.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn credu nad oedd y Nodyn Cyngor Technegol yn adlewyrchu'r athroniaeth dreftadaeth fodern sy'n seiliedig ar gadwraeth yn hytrach na gwarchod, na'r egwyddor o arwyddocâd yn unol ag Egwyddorion Cadwraeth Cadw. Awgrymodd rhai hefyd fod anghysonderau rhwng y Nodyn Cyngor Technegol a'r bennod ar yr amgylchedd hanesyddol ym Mholisi Cynllunio Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Cafwyd sawl cais am eglurder ynglŷn â nifer o faterion gweithdrefnol yn ymwneud â chofnodi archaeolegol, ymgynghori cyn cais a monitro a chyflawni amodau archaeolegol. Yn ychwanegol at hyn, cafwyd ceisiadau am eglurder ynglŷn â rolau yn y broses gynllunio lle mae effaith ar weddillion archaeolegol, er enghraifft cynnwys arbenigwyr achrededig proffesiynol a churaduron. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr hefyd fod y diffiniad o leoliad ar gyfer asedau archaeolegol yn anghyson ac yn aneglur.

Gofynnodd ychydig o'r ymatebwyr am ragor o wybodaeth ynglŷn â beth fyddai'n cael eu hystyried yn weddillion archaeolegol nad ydynt o bwysigrwydd cenedlaethol a theimlent y dylai'r Nodyn Cyngor Technegol egluro'n gliriach sut i baratoi polisïau lleol mewn cysylltiad â gweddillion archaeolegol.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae cynnwys TAN 24 wedi cael ei adolygu ar sail y polisïau sydd ym Mholisi Cynllunio Cymru a'u diwygio lle bo angen. Mae rhywfaint o'r geiriau yn yr adran am weddillion archaeolegol wedi cael eu haddasu hefyd er mwyn adlewyrchu'n fwy cywir yr egwyddorion

sydd yn Egwyddorion Cadwraeth. Dylai hyn sicrhau cysondeb rhwng yr holl ddogfennau polisi a chanllawiau cynllunio a'r amgylchedd hanesyddol.

Mae geiriad yr adran sy'n ymwneud â gweddillion archaeolegol wedi cael ei addasu er mwyn gwneud nifer o faterion yn fwy eglur, gan gynnwys cofnodi archaeolegol, ymgynghori ac amodau archaeolegol. Mae'r diffiniad o leoliad mewn cysylltiad â'r ffordd y mae'n cael ei ystyried yn y broses gynllunio wedi cael ei addasu er mwyn egluro sut y dylid ymdrin ag ef er mwyn deall effaith datblygiad arfaethedig arno.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'n glir bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol edrych ar y cofnod amgylchedd hanesyddol er mwyn nodi ardaloedd, gan gynnwys safleoedd archaeolegol lleol, y mae'n bosibl y bydd angen eu hystyried wrth lunio cynlluniau datblygu ac wrth asesu cynigion ar gyfer datblygu. Yn ychwanegol at hyn, mae Polisi Cynllunio Cymru a'r Nodyn Cyngor Technegol yn darparu hyblygrwydd sy'n caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol benderfynu pa agweddau unigryw i'r ardal leol, wrth ystyried amgylchedd hanesyddol heb ei restru, gan gynnwys gweddillion archaeolegol, ddylai gael eu nodi drwy'r broses gynllunio (gan gynnwys ar restrau lleol a thrwy bolisiâu unigryw i'r ardal leol sydd wedi eu cynnwys mewn cynlluniau datblygu). Ystyrir bod hyn yn briodol gan fod yr hyn sy'n bwysig yn lleol o safbwynt archaeolegol mewn awdurdodau unigol yn debygol o amrywio a'i fod yn dibynnu ar amgylchiadau lleol.



## Cwestiwn 6:

A ydych yn cytuno bod y cyngor ar sut y dylid ystyried asedau hanesyddol penodol, sef 'parciau a gerddi hanesyddol', 'tirweddau hanesyddol' ac 'asedau o ddiddordeb lleol arbennig', drwy'r broses gynllunio yn glir? Os nad ydych, awgrymwch sut y gellid gwella'r cyngor hwnnw.

### Trosolwg Ystadegol

Ymatebwyr yn ôl math	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno
ACLlau	12	3	3
Busnesau	1	3	2
Asiantaethau'r Llywodraeth/ Sector Cyhoeddus Arall	4	2	1
Cyrff Proffesiynol/ Grwpiau Buddiant	8	1	2
Sector Gwirfoddol	1	2	4
Arall	3	2	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>29</b>	<b>13</b>	<b>13</b>
<b>%</b>	<b>53%</b>	<b>24%</b>	<b>24%</b>

### Dadansoddiad Cryno

Roedd ychydig yn fwy na hanner y rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol yn cytuno (53%) bod y cyngor ynglŷn â sut y dylid ystyried asedau hanesyddol penodol (parciau a gerddi hanesyddol, tirweddau hanesyddol ac asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig) yn y broses gynllunio yn glir. Roedd bron i chwarter y rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol yn anghytuno (24%) ac yn credu nad yw'r cyngor yn glir.

Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am ragor o wybodaeth a chanllawiau ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng asedau hanesyddol lleol ac asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig. Gofynnwyd hefyd am ragor o wybodaeth am statws, lefel gwarchodaeth a sut y dylid ymdrin â'r asedau hyn yn y broses gynllunio. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn amau a fyddai gan awdurdodau cynllunio lleol ddigon o adnoddau i allu llunio, cyhoeddi a chadw rhestr o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig.

Dywedodd rhai o'r ymatebwyr nad yw gwybodaeth ar y cofrestrï o barciau a gerddi a thirweddau yn hygyrch iawn ar hyn o bryd ac, o ganlyniad, nad yw'n hawdd i ymgeiswyr ddarparu'r holl wybodaeth berthnasol, a bod angen egluro materion gweithdrefnol ar gyfer ceisiadau am ganiatâd sy'n effeithio ar barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig.

Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr am ragor o ganllawiau ac eglurder ynglŷn â nifer o faterion sy'n ymwneud â'r mathau hyn o asedau yn y broses gynllunio, er enghraifft ynglŷn â chynnwys polisïau perthnasol sy'n unigryw i ardal leol mewn Cynllun Datblygu Lleol ac ynglŷn â pharatoi canllawiau cynllunio atodol. Gofynnodd ymatebwyr hefyd am eglurhad ynglŷn ag asesu effaith datblygiad ar asedau o'r fath.

Dywedodd ychydig o'r ymatebwyr y dylai fod yn ofynnol i Cadw ddarparu cyngor ysgrifenedig fel rhan o'r broses cyn ymgeisio ac y dylai allu nodi'n glir a yw'n cefnogi datblygiadau sy'n effeithio ar barciau, gerddi a thirweddau hanesyddol cofrestredig ai peidio.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae geiriad yr adrannau sy'n ymwneud ag asedau hanesyddol heb eu dynodi wedi ei newid er mwyn egluro beth yw'r asedau hyn a sut y dylid ymdrin â hwy yn y broses gynllunio. Mae rhagor o gyngor a chanllawiau am asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig i'w gweld yn *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru*.

Mae gwybodaeth am ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn y gofrestr o barciau, gerddi a thirweddau hanesyddol ar gael mewn fformatau amrywiol gan Cadw. Mae adolygiad o ffiniau'r parciau a'r gerddi sydd wedi'u cynnwys yn y gofrestr yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a phan fydd wedi cael ei gwblhau bydd yr wybodaeth i'w gweld ar wefan Cadw. Mae'r ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn y gofrestr o dirweddau hanesyddol i'w gweld ar hyn o bryd ar y porthol sy'n cael ei gynnal drwy bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru - Lle.

Mae Polisi Cynllunio Cymru a'r Nodyn Cyngor Technegol yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau cynllunio benderfynu pa asedau hanesyddol lleol ddylai gael eu nodi drwy bolisiau sydd wedi'u cynnwys mewn Cynllun Datblygu Lleol a thrwy ddarparu canllawiau pellach mewn canllawiau cynllunio atodol. Mae hyn yn cael ei ystyried yn briodol gan fod gwybodaeth am asedau hanesyddol penodol mewn awdurdodau unigol yn debygol o amrywio ac mae'n ddibynnol ar amgylchiadau lleol.

Nid rôl y Nodyn Cyngor Technegol yw nodi sut i asesu effeithiau datblygu ar asedau hanesyddol penodol. Yn hytrach, mater i'r awdurdod cynllunio lleol yw pwysu a mesur yr holl ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a allai effeithio ar asedau hanesyddol penodol. Mae Llawlyfr Rheoli Datblygu Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth weithdrefnol ynglŷn â sut y dylai awdurdodau cynllunio lleol roi sylw i ystyriaethau perthnasol wrth wneud penderfyniadau yn ymwneud â cheisiadau cynllunio.

Rôl statudol Cadw yng ngham cyn ymgeisio'r broses gynllunio yw darparu asesiad i'r awdurdod cynllunio lleol o'r effaith y mae rhai datblygiadau mawr yn debygol o'i gael ar ardal sydd wedi'i chynnwys yn y cofrestr o barciau, gerddi a thirweddau hanesyddol. Anogir ymgeiswyr i gynnal trafodaethau cyn gwneud cais gyda'r awdurdod cynllunio lleol ynglŷn â datblygiadau eraill sy'n effeithio ar barciau a gerddi hanesyddol, a gallai Cadw fod yn rhan o'r trafodaethau hyn.

## Cwestiwn 7:

### Rhowch wybod i ni am unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw.

Codwyd materion eraill nad oeddent wedi cael eu trafod yn barod yn yr adrannau blaenorol gan nifer o'r ymatebwyr. Gallai'r materion hyn fod yn themâu trawsbynciol a godwyd mewn ymatebion i nifer o'r cwestiynau neu a godwyd yn uniongyrchol o dan Gwestiwn 7 ac, o ganlyniad, sy'n cael eu crynhoi isod:

- Mynegodd rhai ymatebwyr gefnogaeth gyffredinol i'r Nodyn Cyngor Technegol ac roeddent yn croesawu ei eglurder, ei natur gynhwysfawr a'r ffordd yr oedd yn cydgrynhoi cyngor ar bolisi treftadaeth. Er hyn, awgrymodd ychydig o'r ymatebwyr y gellid gwneud ei statws yn gliriach, o ran ei gysylltiad â deddfwriaeth a dogfennau polisi eraill ac, er enghraifft, sut y mae'n gysylltiedig ag Esemptiad Eglwysig. Teimlid y gallai hyn godi ei statws a'i wneud yn haws i'w ddeall.
- Dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod angen rhyw ffordd o warchod enwau lleoedd hanesyddol ac awgrymasant y dylai caniatâd cynllunio fod yn ofynnol cyn y gellir newid rhai enwau lleoedd.
- Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am eglurder ynglŷn â materion sy'n ymwneud â chaniatâd adeilad rhestredig, gan gynnwys apeliadau, manteision cymunedol, dadansoddi lleoliad, dymchwel, gosodiadau a ffitiadau, cofnodi a rheoli mân waith. Dywedodd ychydig o'r ymatebwyr y dylid ymgynghori â rhagor o gymdeithasau amwynder (yn ychwanegol at y pum Cymdeithas Amwynder Genedlaethol yr ymgynghorwyd â hwy yn barod) ynglŷn â cheisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig. Yn fwyaf arbennig, roedd peidio â chynnwys Atodiad D yng Nghylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig yn peri pryder i nifer o ymatebwyr a oedd yn credu y dylai cynnwys yr atodiad ymddangos hefyd yn y Nodyn Cyngor Technegol neu mewn canllawiau eraill.
- Dywedodd ychydig o'r ymatebwyr fod angen canllawiau ar adolygu ardaloedd cadwraeth ac ar y broses o ystyried cynigion datblygu mewn ardaloedd cadwraeth. Ychwanegodd dau ymatebydd y dylai'r Nodyn Cyngor Technegol nodi nad oes gofyniad statudol i roi sylw i Gynllun Datblygu Lleol wrth benderfynu ynglŷn â cheisiadau am ganiatâd ar gyfer adeilad rhestredig neu mewn ardal gadwraeth.
- Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr am ragor o ganllawiau yn ymwneud â sut i ymdrin â'r niwed posibl a allai gael ei achosi gan Hawliau Datblygu a Ganiateir, ac ar dynnu Hawliau Datblygu a Ganiateir ar gyfer adeiladau rhestredig lleol y tu allan i ardaloedd cadwraeth yn ôl.
- Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr fod y Nodyn Cyngor Technegol yn gwahaniaethu'n rhy llym rhwng 'archaeoleg' ac 'adeiladau'.
- Gofynnodd ychydig o'r ymatebwyr am wybodaeth ynglŷn â Chytundebau Partneriaeth Treftadaeth.
- Dywedodd dau ymatebydd y dylid cynnwys cyfeiriad at LANDMAP yng nghyswllt offer amgylchedd hanesyddol ac wrth asesu ceisiadau sy'n effeithio ar asedau hanesyddol.
- Gofynnodd un ymatebydd am ganllawiau ar faterion trawsffiniol, yn enwedig yng nghyswllt lleoliad.
- Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y dylid ychwanegu neu newid rhai diffiniadau er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r termau sy'n cael eu defnyddio yn y Nodyn Cyngor Technegol.
- Gwnaethpwyd nifer o sylwadau eraill ynglŷn â'r amgylchedd hanesyddol ehangach, er enghraifft Geoparciau UNESCO, arfordiroedd treftadaeth, asedau hanesyddol

morol, trysorau sirol a chysiau dŵr. Gwnaeth rhai o'r ymatebwyr sylwadau ynglŷn â materion trawsffiniol, safonau rheoleiddiol, ymgysylltu â'r gymuned ac allgymorth a lefel arbenigedd y rhai sy'n ymwneud yn ehangach ag amgylchedd hanesyddol Cymru.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn nodi'n glir y dylai gael ei ddarllen ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru a chyfres Cadw o ddogfennau canllawiau arferion gorau. Mae cyfeiriadau at ddeddfwriaeth sylfaenol wedi cael eu hychwanegu at y Nodyn Cyngor Technegol lle bo angen er mwyn egluro ei berthynas â deddfwriaeth amgylchedd hanesyddol berthnasol yn well. Mae'r adran ar Esemptiad Eglwysig wedi cael ei diwygio er mwyn egluro'n gliriach bod yr egwyddorion sydd yn y Nodyn Cyngor Technegol hefyd yn berthnasol i'r enwadau hynny sydd wedi eu hesemptio o'r prosesau caniatâd adeilad rhestredig.

Nid y system gynllunio yw'r mecanwaith priodol er mwyn rheoleiddio neu orfodi enwau lleoedd. Mae'r system yn bodoli er mwyn rheoli datblygiad a defnydd tir. Nid oes a wnelo enwi lleoedd ddim â'r ffordd y mae tir yn cael ei ddefnyddio ac ni ellid ei ystyried fel math o ddatblygiad. O ganlyniad, nid ydym yn credu ei bod yn briodol i roi canllawiau cynllunio ar enwau lleoedd yn y Nodyn Cyngor Technegol. O ran yr ystyriaeth ehangach o enwau lleoedd yn yr amgylchedd hanesyddol, rhoddodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chadw rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru. Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, ar eu rhan, yn gobeithio lansio'r rhestr yng ngwanwyn 2017. Bydd y rhestr ar gael i'r cyhoedd ar-lein a thrwy'r cofnodion amgylchedd hanesyddol.

Mae rhagor o ganllawiau ar faterion gweithdrefnol sy'n ymwneud â'r broses caniatâd adeilad rhestredig i'w gweld yn *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*. Mae'r egwyddorion cyffredinol y dylid eu rhoi ar waith wrth wneud addasiadau i adeiladau rhestredig, er nad ydynt wedi eu hailadrodd yn fanwl, wedi eu cynnwys yn y canllawiau hyn. Maent yn adlewyrchu Egwyddorion Cadwraeth Cadw yn well a'r ddealltwriaeth o effaith debygol newid ar y nodweddion arbennig sy'n cyfrannu tuag at arwyddocâd adeilad rhestredig. Nid yw newidiadau i'r cyrff penodol y mae'n ofynnol ymgynghori â hwy ynglŷn â cheisiadau caniatâd adeilad rhestredig yn rhan o gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â rheoli ac adolygu ardaloedd cadwraeth i'w gweld yn *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru*. Yn gyffredinol, mae'n fater o arfer sefydledig i awdurdodau cynllunio lleol roi sylw i'r holl ystyriaethau perthnasol wrth ystyried effeithiau datblygu, gan gynnwys mewn ardaloedd cadwraeth. O ganlyniad, nid oes angen rhagor o ganllawiau ar asesu effeithiau cynigion datblygu ar ardaloedd cadwraeth yn y Nodyn Cyngor Technegol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi nad yw'n statudol ofynnol i roi sylw i ddarpariaethau'r cynllun datblygu wrth ystyried ceisiadau caniatâd ar gyfer adeilad rhestredig neu mewn ardal gadwraeth. O ganlyniad, nid oes angen ailadrodd hyn yn y Nodyn Cyngor Technegol.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â defnyddio Hawliau Datblygu a Ganiateir. Mae'n nodi mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid tynnu Hawliau Datblygu a Ganiateir yn ôl, a phan nad oes bygythiad real a phenodol i ddiddordeb o bwysigrwydd cydnabyddedig. Mae'r egwyddor hon yn berthnasol ledled y system gynllunio. Mae hefyd yn berthnasol felly i feysydd lle gallai'r hawliau datblygu a ganiateir presennol gael effaith anffafriol ar asedau hanesyddol sy'n bodoli'n barod. Mae rhagor o ganllawiau sy'n nodi ble gallai'r amgylchiadau eithriadol hyn fod yn berthnasol mewn

cysylltiad ag asedau hanesyddol lleol i'w gweld yn *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru*.

Mae'r gwahaniaeth rhwng gweddillion archaeolegol ac adeiladau yn adlewyrchu'r trefniadau presennol sydd wedi'u hamlinellu mewn deddfwriaeth sylfaenol.

Pan fydd darpariaethau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 sy'n ymwneud â Chytundebau Partneriaeth Treftadaeth yn dod i rym, bydd TAN 24 yn cael ei ddiweddarau os bydd angen.

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol wedi cael ei ddiwygio i awgrymu y gall awdurdodau cynllunio lleol ystyried LANDMAP yn ogystal â'r Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol wrth ystyried ceisiadau sydd angen Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd.

Mae nifer o ddiwygiadau ac ychwanegiadau wedi eu gwneud i'r Rhestr Termau yn Atodiad D er mwyn darparu eglurder a dealltwriaeth o'r termau a ddefnyddiwyd.

Nid yw'n bosibl i'r system gynllunio roi sylw i rai o'r sylwadau a'r awgrymiadau a dderbyniwyd, er ein bod yn eu croesawu, a'n bod wedi eu hystyried yn llawn yn ystod cam dadansoddi'r ymgynghoriad, gan fod y system gynllunio yn bodoli er mwyn rheoli datblygiad a defnydd tir. O ganlyniad, nid ydynt yn rhan o gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

## Atodiad – Rhestr o'r Ymatebwyr yn ôl Categori

### Busnesau

CEMEX UK Operations Ltd (Iluniwyd ar ei ran gan Cotswold Archaeology)
Innogy Renewables UK Ltd
National Grid
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys
Dŵr Cymru
Trysor
Nathaniel Lichfield & Partners
Dienw
<b>Cyfanswm – 8</b>

### Awdurdodau Cynllunio Lleol

Dienw
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Parciau Cenedlaethol Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Dienw
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Gwynedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Dinas Caerdydd
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Sir Mynwy
Cyngor Bro Morgannwg
<b>Cyfanswm – 19</b>

### Asiantaeth y Llywodraeth/ Sector Cyhoeddus Arall

Un Llais Cymru
Cyngor Cymuned Llandochoau
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyngor Tref Conwy
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Yr Ymddiriedolaeth Theatrau
Historic England
Cyngor Tref Aberaeron
Cyngor Tref Llandudno
<b>Cyfanswm – 9</b>

### Corff Proffesiynol/ Grŵp Buddiant

Sefydliad y Peirianwyr Sifil: Cymru
Geoparc Byd-eang UNESCO GeoMon
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
Cotswold Archaeology
Cymdeithas Cynnyrch Mwynol
Sefydliad Siartredig Archaeolegwyr
Grŵp Treftadaeth Cymru
Cymdeithas Hynafiaethwyr Llundain
Cymdeithas Tai Hanesyddol
Cymdeithas y Cyfreithwyr
RTPI Cymru
Cyngor Archaeoleg Prydain
Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru
ALGAO Cymru
<b>Cyfanswm – 14</b>

### Y Sector Gwirfoddol

Cymdeithas Ddinesig Caernarfon
Ymddiriedolaeth Archaeoleg Morgannwg-Gwent Cyf
Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Corff Cynrychioladol yr Eglwys yng Nghymru
Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru
Dienw
Yr Eglwys Fethodistaidd
Cyngor Cymuned Llandysul
<b>Cyfanswm – 8</b>

### Arall

Godfrey D Northam
Richard Ebley
Dienw
Myfanwy Evans
Dr Rosetta M. Plummer
Martin Locock
Dave Healey
Cynghorydd Sir, Ward Caergwrle, Sir y Fflint
Partneriaeth Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, Safle Treftadaeth y Byd
Glandŵr Cymru
CLA Cymru
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Olwen Jenkins
Timothy Malim
Gwyn Jones
<b>Cyfanswm – 15</b>

